


**YSGOL DAVID HUGHES
PORTHAETHWY**



**ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM
Y FLWYDDYN ACADEMIAIDD
2015/2016**

YSGOL DAVID HUGHES

PORTRAETHWY



ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2015/2016

Cyflwynir yr adroddiad hwn i rieni'r ysgol. Crynodeb sydd yma o'r modd y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn academaidd **2015/2016**.

Y CORFF LLYWODRAETHU AM 2015/2016

CYNRYCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emry Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mrs Shan Wright Hughes Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams Mrs Catrin Withers	31.08.16 31.08.17 31.01.20 31.08.16 31.01.20 31.08.16
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Manon Davies Mr Alun Roberts	31.08.16 06.05.19
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Nicola Parry	31.08.17
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cynghorydd Meirion Jones Cynghorydd Carwyn Elias Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.16 31.05.17 31.05.17
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.16 22.03.19 04.10.19 31.08.17 31.08.16
Cynrychiolwyr Disgyblion	Ffion Elin Davies Sean Benedict Clapham	31.08.16 31.08.16
Clerc y Llywodraethwyr	Mrs Wendy Williams	

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR AM 2016/2017

yw Mr Gwyn Morgan Lloyd a gellir cysylltu ag ef drwy'r ysgol.

1. YR YSGOL

Roedd gan Ysgol David Hughes **1087** o ddisgyblion ar ei llyfrau ym mis **Medi 2015**. Rhif mynediad yr ysgol am **2016/2017** yw **216** o ddisgyblion ar gyfer pob blwyddyn ysgol. Ym mis Medi **2016** mae gennym **1120** o ddisgyblion a **81** o athrawon gyda **42** o staff cefnogol.

2. NOD AC AMCANION YR YSGOL

Nod yr ysgol, mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yw creu awyrgylch sy'n caniatáu i'r disgyblion ddatblygu i'w potensial eithaf, ac wynebu'n hyderus ofynion ein cymdeithas fodern ddwyieithog.

1. Ceisio meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol gan roi sylw penodol i oddefgarwch a gofal dros eraill, yn arbennig y rhai lleiaf ffodus mewn bywyd.
2. Datblygu sylfaen o lythrenedd a gwybodaeth fathemategol, wyddonol a thechnegol i alluogi'r disgybl i ddysgu sgliau hanfodol gwaith a hamdden ar gyfer heddiw a'r cyfnod technolegol a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol.
3. Paratoi'r disgybl i wneud cyfraniad llawn i fywyd y gymdeithas y mae'n rhan ohoni. Yn achos Môn, cymdeithas ddwyieithog yw honno, felly, fe ddylid sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog os ydyw am gyrraedd y nod hwn.
4. Dysgu disgybl am gamp a dyheadau dyn yn y celfyddydau, y gwyddorau a chrefydd a'r ymchwil am gymdeithas gyfiawn.
5. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddatblygu meddwl ymchwilgar, bywiog; i holi a dadlau'n rhesymegol ac yna i ymroi i dasgau penodol.
6. Ceisio cynorthwyo'r disgybl i ddeall sut y mae gwlod yn ennill ac yn cynnal ei safon byw gan roi sylw yn arbennig i bwysigrwydd diwydiant a byd gwaith.
7. Paratoi cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol.

3. DIWRNOD YSGOL

Rhennir y diwrnod fel a ganlyn:

8.45 - 9.10	Cychwyn y diwrnod Ysgol/Cofrestru
9.10 - 10.00	Gwers 1
10.00 - 10.50	Gwers 2
10.50 - 11.05	Egwyl
11.05 - 11.55	Gwers 3
11.55 - 12.45	Gwers 4
12.45 - 1.40	Cinio
1.40 - 2.30	Gwers 5
2.30 - 3.20	Gwers 6

4. CYFARFODYDD Y LLYWODRAETHWYR

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu ar y dyddiadau a ganlyn:

5	Hydref 2015
14	Rhagfyr 2015
21	Mawrth 2016
27	Mehefin 2016

5 Hydref 2015

Etholwyd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Enwebwyd Llywodraethwr Dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf ac o amrywiol ohebiaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynnyddol i'r Llywodraethwyr ar Ddiogelu Plant 2014/2015.

Ystyriwyd canlyniadau'r arholiadau allanol a'r targedau blynnyddol.

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2015/2016.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan y Disgyblion-Lywodraethwyr.

14 Rhagfyr 2015

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan y Disgyblion-Lywodraethwyr.

Derbynwyd adroddiad y Pennaeth yn nodi digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.

Cyflwynwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r hunan arfarniadau'r canlyniadau a thrafodwyd materion staffio a chyllid.

Cyflwynwyd gwybodaeth am ail-strwythuro adroddiadau disgyblion i'r rhieni.

Cytunwyd i weithredu telerau ac amodau Statws Sengl gydag effaith 1 Rhagfyr 2015 fel ysgol.

21 Mawrth 2016

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli.

Derbynwyd adroddiad y Pennaeth yn nodi digwyddiadau a llwyddiannau'r ysgol.

Mabwysiadwyd y gyllideb ddrafft am **2016/2017**.

Adolygydd Cynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer 2015-2016.

Trafodwyd materion staffio.

Derbynwyd adroddiad o'r Cyngor Ysgol gan dri disgybl.

27 Mehefin 2016

Ail-etholwyd cynrychiolwyr cyfetholedig.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o'r cofnodion diwethaf.

Derbynwyd cofnodion yr Is-baneli, a phenderfynwyd mabwysiadu'r polisiau a argymhellwyd gan yr Is-Banel Polisiau.

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth am ddigwyddiadau a llwyddiannau.

Penderfynwyd creu rheol newydd ar gyfer Medi 2016: gwahardd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 rhag gadael tir yr ysgol.

Trafodwyd rhagolygon niferoedd ar gyfer Medi 2016.

Mabwysiadwyd y gyllideb derfynol am **2016/2017**.

Penderfynwyd derbyn mantolen diwedd blwyddyn ar gyfer cronfa'r ysgol.

Derbynwyd cyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer cyllideb **2015/2016**.

Trafodwyd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2016/2017.

Trafodwyd materion staffio.

YMDDYGIAD A DISGYBLAETH – EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Disgwyliwn felly i gyfeillgarwch, cydweithrediad a synnwyr cyffredin fod yn sail i'r gweithgaredd. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol bydd gofyn i ddisgyblion wneud llawer o benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol. Mae llwyddiant yn yr ysgol, addysg bellach, hyfforddiant neu fydd gwaith yn gofyn am ymroddiad a gwaith caled. Er mwyn ceisio helpu'r disgylion i gyrraedd y safon ddisgwylledig gobeithiwn greu'r amodau a'r awyrgylch gywir o fewn yr ysgol.

Dylai pob aelod o'r ysgol ddangos parch tuag at yr aelodau eraill, disgyl tuag at ddisgybl, disgyl tuag at athro, ac aelodau o'r ysgol tuag at ymwelwyr.

Mae pob disgyl yn aelod o grŵp tiwtorial ac mae'r tiwtor dosbarth bob amser yn barod i roi cyngor, helpu gydag ymholaiedau neu geisio datrys problemau.

Mae athrawon yn y dosbarth i weithio gyda'r grŵp cyfan. Fe fyddant, wrth gwrs, yn barod i roi sylw unigol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw unigolion difeddwyl yn amharu ar y dosbarth.

Os oes gan unrhyw riant sylw i wneud ar y datganiad uchod gofynnir i chi gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethu trwy'r ysgol.

Yn ogystal â chyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn mae gan y Llywodraethwyr 5 Is-bwyllgor sef, Adeiladau, Cyllid a Phersonél, Lles a Chymunedol, Polisiau, a Chwricwlwm a Safonau a chyfarfu'r rhain nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cyfarfu'r Is-banel Penodi ac Is-banel Disgyblaeth fel bo'r galw.

5. GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol a'r meysydd llafur gan y Pennaeth.

Cyhoeddir llawlyfr - Gwybodaeth i Rieni - yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Yn ogystal â hyn cynhyrchwyd llawlyfrau i rieni yn ymwneud â:

Mynediad i'r ysgol
Dewisiadau Blwyddyn 10
Mynediad i Flwyddyn 12
Disgyblaeth
Gwaith Cartref
Cyfarwyddyd Gyrfaoedd
Addysg Iechyd
Polisi Iaith

Mae Bwletin Rhieni sy'n cael ei gyhoeddi'n dymhorol yn rhoi'r wybodaeth diwedda.

6. ADEILADAU'R YSGOL

Archwiliodd y Llywodraethwyr adeiladau'r ysgol ar **21 Mawrth 2016**.

Cafodd yr addasiadau ganlyn eu gwneud:

- **Derbynfa**
Ffurfiwyd Derbynfa newydd ar gyfer Medi 2015 drwy addasu ystafell ddirprwy bennaeth a rhan o storfa TGCh (yr hen tuck siop) ac addasu'r fynedfa allanol gyda ramp pwrpasol. Ffurfiwyd ardal aros ymwelwyr un ochr, a derbynfa gydag ystafell feddygol bwrpasol. Hefyd, ffurfiwyd ardal aros plant sâl, ar un ochr o'r dderbynfa, ac mae staff yn gallu cadw golwg arnynt.
- **Drysau Allanol yr ysgol**
Uwchraddiwyd holl ddrysau allanol yr ysgol gyda system gloi electroneg.
- **Ystafell Gyfarfod**
Creuwyd ystafell gyfarfod newydd o'r hen swyddfa, sy'n cael ei ddefnyddio fel ystafell staff ar gyfer cyhoeddiadau boreol, cyfarfodydd rheolaethol, ac amryw gyfarfodydd eraill.
- **Ystafell Ddirprwy Bennaeth**
O'r swyddfa fach o fewn yr hen Swyddfa, ffurfiwyd ystafell newydd i'r Dirprwy Bennaeth, gyda drws ychwanegol yn agor allan i'r prif goridor.
- **Ystafell Gyfarfod Penaethiaid Blwyddyn**
Ffurfiwyd ystafell bennaethiaid blwyddyn i gyfarfod rhieni ger yr ystafell ddirprwy bennaeth.
- **Ystafell Fathemateg (C17)**
Ffurfiwyd ystafell Fathemateg newydd o ran o'r hen ystafell staff. Mae gweddill yr ystafell staff nawr yn ardal gweithio i staff gyda chyfrifiaduron.

- **Lloriau**
Adnewyddwyd lloriau bloc A, bloc Cerdd a gosodwyd carped newydd yn yr ystafell gyfarfod newydd.
- **Peintio**
Gwnaed rhyw faint o beintio.
- **Tanciau Dwr**
Gwacawyd y tanciau dwr a'u glanhau yn dilyn arolwg Legionella.
- **Y Caeau**
Gosodwyd pyst rygbi newydd.

7. YMDDEOLIADAU A PHENODIADAU STAFF

Staff sydd wedi gadael:

Mrs Gillian Patricia Parker	Pennaeth Adran Gelf
Mr D Gareth Williams	Athro Drama/Cyfryngau
Mrs Gillian Smith	Athrawes Saesneg
Mrs Anita Long	Athrawes Arlwyd/Technoleg
Mrs Sian Williams	Athrawes Addysg Grefyddol
Mr Gareth J Patchett	Athro Addysg Gorfforol
Mr Martin Japheth	Athro Technoleg Gwybodaeth
Mr Elwyn Taylor	Athro Mathemateg
Mr Karl Bohana	Athro Cymraeg
Mrs Debbie Vaughan	Athrawes Gwyddoniaeth
Miss Heather Mowll	Athrawes Gwyddoniaeth
Miss Fiona Mair Bridle	Athrawes Gwyddoniaeth
Mrs Rhiannon Wyn Jones	Anogwr Dysgu
Mrs Nicola Guichard Parry	Uwch Gymhortydd
Mr John Rhys Harrison	Cymhortydd Cefnogi Dysgu
Mrs Ceri L Gross	Cymhortydd Cefnogi Dysgu
Miss Mair T Williams	Swyddog SIMS
Ms Eirian Wynne	Swyddog Gweinyddol
Mr Peter Marshall	Swyddog Triwantiaeth/Is-Ofalwr
Mrs Grace O'Neill	Goruchwylwraig Amser Cinio

Penodwyd y rhai a ganlyn:

Mrs Helen Ellis Bebb	Pennaeth Addysg Grefyddol
Mrs Christina Thatcher	Athrawes leithoedd Modern
Miss Lucy Patricia Rogers	Athrawes Gwyddoniaeth
Mr Aled Wyn Williams	Athro Mathemateg
Mr Elwyn Taylor	Athro Mathemateg
Mr Karl Bohana	Athro Cymraeg
Mrs Debbie Vaughan	Athrawes Gwyddoniaeth
Mr Rhys Hughes-Jones	Cymhortydd Cefnogi Dysgu
Miss Katy Gibson	Cymhortydd Cefnogi Dysgu
Ms Eirian Wynne	Swyddog Gweinyddol

8. CYSWLLT CYMUNEDOL A GWEITHGAREDDAU

- Trefnwyd nifer o ymwiadau addysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu defnydd cymunedol cyson o'r ysgol a'r Ganolfan Hamdden.
- Drwy'r Ffair a Raffl Nadolig y Cyfeillion cyfrannwyd at fywyd cymdeithasol, elusennol a diwylliannol. Aeth elw'r gweithgareddau eleni at brynu adnoddau newydd i'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithredu Cynllun Profiad Gwaith a chafodd pob disgyl ym Mlwyddyn 10 a 12 leoliad profiad gwaith ar ddiweddu Tymor yr Haf.
- Cafwyd cymorth yn ystod y flwyddyn gan asiantaethau allanol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.
- Mae disgylion o'r ysgol yn gwneud gwaith gwirfoddol yn lleol.
- Mae nifer fawr o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lleol tu allan i oriau'r ysgol, ee chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, ayyb.
- Bu ymdrech i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda rhieni a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i esbonio polisi a threfn fel a ganlyn:
 - Bwletin Rhieni
 - Cyfarfod rhieni ar gyfer pob blwyddyn ysgol

- Cyfarfod i drafod mynediad i Flwyddyn 12/Opsiynau 16+
- Cyfarfod i drafod dewisiadau Blwyddyn 10
- Cyfarfod i drafod mynediad i golegau
- Ymwelwyd â holl ysgolion cynradd y dalgylch i drafod trosglwyddo cynradd-uwchradd
- Ymweliad 3 diwrnod yn ystod tymor yr Haf gan darpar-ddisgyblion (Blwyddyn 6).
- Cyfarfod gyda rhieni disgyblion Blwyddyn 6 ysgolion cynradd er mwyn gwneud y broses o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn un esmwyth.
- Cefnogwyd amryw o elusennau yn ystod y flwyddyn.
- Trefnwyd prosiectau cwricwlaidd gyda diwydiannau lleol.

9. LLWYDDIANNAU'R FLWYDDYN

Hysbysir rhieni yn rheolaidd am lwyddiannau'r ysgol drwy'r Bwletin Rhieni a'r dulliau cyfathrebu arferol ee Papur Menai.

10. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL YRADRAN ADDYSG GORFFOROL 2015/2016

Pêl-droed Bechdyn

Unwaith eto eleni, cynrychiolwyd yr ysgol gan dimau o bob grŵp oedran. Cymerodd y timau dan 12, 13, 14, 15 ac 18 ran yng nghystadleuaeth Cwpan Eryri.

Cyrhaeddodd y tîm dan 12 y rownd gogynderfynol a chyrhaeddodd y tîm dan 12 y 3^{edd} rownd ond yn anffodus collodd rhai dan 15 a dan 18 ar giciau cosb yn y rownd gyntaf. Y tîm dan 14 oedd fwyaf llwyddiannus, gan gyrraedd y rownd gynderfynol. Hefyd chwaraewyd nifer o gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol.

Pêl-droed Merched

Yn ystod tymor 2015-16, cofrestrwyd timau yng Nghwpan Eryri yn y ddau grŵp oedran – dan 13 a dan 15. Enillodd y tîm iau eu rowndiau cyntaf ac ail cyn colli, yn anffodus, yn y drydedd rownd. Aeth y tîm dan 15 ymlaen i'r rownd gynderfynol cyn colli o drwch blewyn i'r buddugwyr terfynol. Roedd y nifer o ferched a fynychodd yr hyfforddiant wythnosol trwy gydol y tymor yn dangos brwd frydedd ac ymrwymiad y merched i'r gamp.

Rygbî

Yn ystod tymor yr Hydref 2015, cynrychiolodd y timau dan 14 ac 16 yr ysgol yng nghyngahrair Ynys Môn. Perfformiodd y ddau dîm yn ardderchog, gyda'r tîm dan 16 yn ennill eu cyngahrair ac yn ennill rhai gemau efo'r sgôr uchaf erioed. Yn ystod tymor y Gwanwyn 2016, cynrychiolodd y timau dan 13 ac 15 yr ysgol yng nghystadleuaeth cwpant Eryri gyda'r rhai dan 15 yn cyrraedd ac yn ennill y rownd derfynol yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen i ddod yn bencampwyr Eryri. Dewiswyd nifer o'r bechgyn ar gyfer y garfan dan 15 rhanbarth Gorllewin RGC.

Rygbî Merched

Oherwydd gofyn uchel, sefydlwyd rygbî merched yn ystod tymor yr haf gyda thîm o ferched blwyddyn 7 ac 8 yn cymryd rhan mewn twrnamaint saith-bob-ochr yng Nghaernarfon. Cynhaliwyd sesiynau ymarfer wythnosol trwy gydol yr haf.

Pêl-fasged

Cynrychiolodd timau o fl. 8 a bl. 10 yr ysgol yn nhwrrnameintiau Eryri. Chwaraeodd y ddau dîm yn dda iawn ond yn anfod dus ni wnaethant ennill eu lle i fynd ymlaen.

Badminton

Roedd timau o flynyddoedd 8 a 9 yn llwyddiannus yn nhwrrnameintiau Ynys Môn gyda'r bechgyn a'r genethod o flwyddyn 8 yn ennill twrnamaint Eryri.

Athletau

Yn dilyn cystadleuaeth Ynys Môn yn Nhreborth, aeth nifer o unigolion ymlaen i gynrychioli Môn yng nghystadleuaeth Eryri. Yn dilyn hyn dewiswyd 12 athletwr i gynrychioli Eryri yn y gystadleuaeth Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yn y cystadlaethau timau athletau, daeth y ddau dîm blwyddyn 7 yn gyntaf gyda rhai perfformiadau unigol rhagorol. Enillodd timau merched a bechgyn blwyddyn 8 a'r tîm merched blwyddyn 10 eu cystadleuaeth ac aethant ymlaen i gynrychioli Ynys Môn yn rownd Eryri. Enillodd y ddau dîm genethod rownd Eryri, gan fynd ymlaen i'r gystadleuaeth genedlaethol yn Aberhonddu a gorffen yn chweched teilwng iawn trwy Gymru.

Traws gwlad

Cystadloedd 6 tîm o Ysgol David Hughes yn y gystadleuaeth Ynys Môn ac aeth llawer o unigolion ymlaen i Bencampwriaethau Eryri yn Nolgellau. Aeth 3 disgybl ymlaen i redeg dros Eryri ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn Nolgellau. Aeth 3 disgybl ymlaen i redeg dros Eryri ym Mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn Aberhonddu.

Hoci

Er gwaethaf diffyg hyfforddiant a chyfleusterau chwarae digonol, cynrychiolodd dau dîm yr ysgol mewn amryw gêm gyfeillgar a thwrnamaint. Cystadlodd y tîm dan 14 yn y twrnamaint Môn/Arfon lle, er gwaethaf perfformiadau rhagorol yn erbyn timau oedd yn brofiadol mewn chwarae ar feysydd *astro turf* (yn hytrach na tharmac!!) fe enillwyd un gêm, cafwyd 2 gêm gyfartal a chollwyd 2.

Gymnasteg

Mae nifer o ferched a bechgyn yn mynchu'r clwb gymnasteg a gynhelir gan Miss Sera Evans unwaith yr wythnos, yn rheolaidd.

Cystadlodd rhai disgyblion yn y gystadleuaeth lefel brofiadol ym Mhenygroes a hefyd yn y gystadleuaeth ysgolion Eryri yng Nghaernarfon.

Pêl-rwyd

Mae gan yr ysgol dimau ar gyfer pob grŵp blwyddyn o 7-11 a hefyd timau dan 14, 16 ac 18. Trefnwyd gemau cyfeillgar i'r timau i gyd yn rheolaidd yn erbyn ysgolion lleol eraill gyda'r timau dan 14, 16 ac 18 yn cymryd rhan yn nhwrrnameintiau Ynys Môn ac Eryri.

Enilloedd y tîm dan 14 dwrnamaint Ynys Môn ac aethant ymlaen i fod yn bencampwyr Eryri.

Daeth y timau dan 16 a dan 18 yn ail yn nhwrrnamaint Ynys Môn.

Cystadlodd timau o flynyddoedd 7/8 ac 9/10 mewn twrnameintiau a drefnwyd gan yr Urdd. Chwaraeodd y ddau dîm yn dda iawn gan gyrraedd y rownd gogynderfynol. Mwynhaodd y genethod y profiad yma gan iddo roi'r cyfle iddynt chwarae yn erbyn ysgolion ledled Gogledd Cymru.

Dewiswyd 6 geneth ar gyfer carfannau dan 14 a dan 16 Eryri.

Athletau dan do

Cynrychiolodd 4 tîm yr ysgol yng nghystadleuaeth athletau dan do Ynys Môn ym Mhlas Arthur.

Dewiswyd llawer o ddisgyblion i gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru yng nghystadleuaeth Cymru yng Nghwmbrân.

Caiacio

Cymrodd sawl tîm o'r ysgol ran yng nghystadleuaeth Ynys Môn gyda'r tîm merched blwyddyn 8 yn mynd ymlaen i fod yn bencampwyr Gogledd Cymru.

Cwrs Sgôi

Cafodd llawer o ddisgyblion wersi sgôi yn Llandudno ar lethr sgôi sych.

Aeth 52 o ddisgyblion i Alpe D'Huez, Ffrainc yn Ionawr ar gwrs sgôi.

Bu'n flwyddyn Iwyddiannus iawn i dimau ac unigolion yr ysgol, ynghyd â'r gwahanol gyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon sydd ar gael i'r holl ddisgyblion, gan orffen gyda'r adran yn ennill gwobr ysgol uwchradd y flwyddyn yng ngwobrau chwaraeon Gwynedd a Môn ym mis Mai.

11. GWYLIAU YSGOL I DDISGYBLION AR GYFER 2016/2017

TYMOR	GWYLIAU
HYDREF 2016 1 Medi – 16 Rhagfyr	1 Medi 2016 – Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion 2 Medi 2016 - Hyfforddiant Mewn Swydd – dim ysgol i'r disgyblion 24 – 28 Hydref 2016 (Hanner Tymor yr Hydref) 19 Rhagfyr 2016 – 2 Ionawr 2017 (Gwyliau'r Nadolig)
GWANWYN 2017 3 Ionawr – 7 Ebrill	20 – 24 Chwefror 2017 (Hanner Tymor y Gwanwyn) 10 – 21 Ebrill 2017 (Gwyliau'r Pasg)
HAF 2017 24 Ebrill – 21 Gorffennaf	1 Mai 2017 (Calan Mai) 29 Mai – 2 Mehefin 2017 (Hanner Tymor y Sulgwyn) 22 Gorffennaf – 31 Awst 2017 (Gwyliau'r Haf)

12. CANLYNIADAU ARHOLIADAU

Mae canlyniadau arholiadau'r ysgol ar gyfer **Haf 2016** yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ffurflen SSSP, sef **PAPUR A**. Mae'r ffurflenni yn dangos perfformiad yr ysgol o'i gymharu â rhai o'r targedau cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y canlyniadau ardderchog sy'n adlewyrchu gwaith caled a llwyddiant y bartneriaeth allweddol rhwng yr athrawon, y disgyblion a'u rhieni. Byddwn yn anelu at gynnwl y safonau uchel hyn yn y dyfodol.

13. CANLYNIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 3 A THARGEDAU AR GYFER 2016-2017

Gweler **PAPUR B** sydd yn rhoi gwybodaeth am ganlyniadau'r disgylion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.

14. CYLLIDEB 2015-2016

Gweler y ddogfen ddwyieithog **PAPUR C** am fanylion am gyllideb **2015/2016**.

15. HYNT DISGYBLION

Gweler **PAPUR D**.

16. PRESENOLDEB DISGYBLION

Gweler **PAPUR E**.

Targed Presenoldeb 2016/2017 = 96%

17. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae polisi'r ysgol yn seiliedig ar hawl pob disgyl i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn Ysgol David Hughes gaiff disgylion eu hintegreiddio mor llwyr ag y mae'n bosibl i ddosbarthiadau prif ffrwd. Lle y ceir anawsterau neilltuol yn y pynciau craidd, Saesneg, Cymraeg a Mathemateg, gwneir darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau llai lle y gall disgylion dderbyn mwy o sylw unigol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn.

Caiff disgylion y mae arnynt angen cymorth y tu hwnt i'r mwyafri o'u cyfoedion eu hystyried yn ddisgyblion ag Anghenion Ychwanegol. Gallent amrywio o ddisgyblion sydd ar ddatganiad Anghenion Ychwanegol yr AALI ac sy'n derbyn cymorth penodol i ddisgyblion sy'n cael anhawster mewn un maes cwricwlwm yn unig. Gallent fod yn anawsterau corfforol, neu emosiynol yn ogystal ag anawsterau academaidd.

Mae'r cydweithrediad agos rhwng Penaethiaid Adrannau a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Ychwanegol yn arwain at fonitro cynnydd yn fanwl a lle ceir achos o bryder, gellir gweithredu'n syth.

Anogir cadw cysylltiad agos rhwng rhieni disgylion Anghenion Ychwanegol a'u hathrawon.

Gellir monitro disgylion unigol hefyd drwy Nosweithiau Rhieni ac asesiadau dair gwaith y flwyddyn.

Cynigir hefyd gymorth ychwanegol i ddisgyblion y tu allan i'r amserlen ffurfiol. Gweithredir cynllun darllen ar y cyd bob bore yn ystod y cyfnod cofrestru pan fydd disgylion yr ysgol iau yn ymarfer darllen gydag aelod o Flwyddyn 12. Bu'r cynllun yn llwyddiannus iawn wrth ysgogi darllenwyr gwan neu gyndyn i gynyddu eu gallu a'u mwynhad wrth ddarllen. Yn ystod pedwar amser cinio'r wythnos cynhelir clybiau a grwpiau cymorth amrywiol sy'n cynnig cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae Clybiau megis y Clwb Gwaith Cartref a'r Grŵp Cynnal Dyslecsia wedi dod yn boblogaidd ymhlið disgylion sydd erbyn hyn yn eu mynchyu'n wirfoddol. Mae disgylion ag anghenion ychwanegol yn ymuno'n llawn yn holl weithgareddau diwylliannol a chymdeithasol yr ysgol ac anogir hwy i gymryd rhan gyflawn ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol a chael budd o wneud hynny.

18. DISGYBLION ANABL

Mae Ysgol David Hughes yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Addysg a'r asiantaethau perthnasol i sicrhau nad yw disgylion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgylion eraill.

19. GWEITHREDU AC ADOLYGU STRATEGAETHAU'R YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Ysgol sy'n cynnwys blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cyswllt gyda'r gyllideb yn holl bwysig ac mae nifer o'r strategaethau datblygol wedi eu costio'n fanwl.

Mae crynodeb o'r blaenoriaethau ar gael yn yr ysgol.

20. Y DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YN YR YSGOL

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol uwchradd ddwyieithog Categori 2B, sydd yn golygu, addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgylion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rheini yn y naill iaith a'r llall.

Ar gyfer disgyblion sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

Mae'r ysgol yn dilyn Polisi Iaith Ysgolion Ynys Môn, a gafodd ei ffurfioli yn 1998, a'i phrif amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog.

Ei amcan yw sicrhau bod pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn unol â gallu ieithyddol pob unigolyn, er mwyn sicrhau parhad addysg ddwyieithog ar ôl y cynradd.

21. CYFARFOD GYDA CHORFF LLYWODRAETHU'R YSGOL

Yn dilyn newid yn y drefn pan ddaeth Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Cymru 2013 i rym, nid yw'n orfodol i gynnal cyfarfod blynnyddol gyda rhieni mwyach.

Yn ystod 2015-2016, ni chyflwynwyd deiseb i gynnal cyfarfod, felly ni chafwyd un.

22. Y CORFF LLYWODRAETHU O 1 MEDI 2016

Mae'r Corff Llywodraethu o **1 Medi 2016** yn unol â'r rhestr isod.

Cynhelir yr etholiad nesaf ar gyfer rhieni-lywodraethwyr pan fydd cyfnodau'r aelodau presennol yn dod i ben.

CYNRYCHIOLAETH:	ENW:	HYD AT:
Pennaeth	Mr H Emrys Williams	yn rhinwedd ei swydd
Cynrychiolwyr Rhieni	Mr Ian Davies Mr Dafydd Rhodri Eckley Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams	21.11.20 21.11.20 31.08.17 31.01.20 21.11.20 31.01.20
Cynrychiolwyr Athrawon	Mrs Menai Wyn Jones Mr Alun Roberts	31.08.20 06.05.19
Cynrychiolydd Staff Cefnogol	Mrs Wendy Williams	31.08.20
Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Leol	Cyngħorġ Lewis Davies Cyngħorġ Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Cyngħorġ Carwyn Elias Jones Cyngħorġ Meirion Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.20 31.05.17 31.05.17
Cynrychiolwyr Cyfetholedig	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.20 22.03.19 04.10.19 31.08.17 31.08.20
Cynrychiolwyr Disgyblion	Grace Charlotte Eickmann Shôn Alun Thomas	31.08.17 31.08.17

23. POLISIAU WEDI'U MABWYSIADU

Mabwysiadwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-2016 gan y Llywodraethwyr:-
Polisi Mwy Abl a Dawnus
Polisi Teithiau/Ymweliadau Addysgol
Polisi Arholiadau a Chynllun wrth gefn
Polisi Presenoldeb a Phrydlondeb
Polisi Addysg Iechyd
Polisi Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy
Polisi Apeliadau Mewnol Ynglŷn â Phenderfyniadau ar Asesiadau Mewnol ac Ymholaadau Ynglŷn â'r Canlyniadau
Asesiad dan Reolaeth – Proses Rheoli Risg
Polisi Amddiffyn Plant
Polisi Cyflog
Adroddiad Blynnyddol i'r Corff Llywodraethu ar Ddiogelu Plant (CSYM)

24. CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf ac wedi adnewyddu 4 bloc toiled. Mae'r toiledau yma yn gwbl breifat gyda drws yn ymestyn i'r nenfwd ar bob ciwbicl. Rhoddwyd camerâu CCTV i gadw golwg ar y rhan agored wrth y sinciau ym mhob toiled i sicrhau nad oes neb yn camymddwyn tuag ddisgyblion eraill nag yn difrodi'r eiddo. Cedwir y toiledau yn lân gyda chyflenwad digonol o sebon a phapur yn ddyddiol drwy gytundeb glanhau Cyngor Sir Ynys Môn.

25. HYRWYDDO YFED A BWYTA'N IACH GAN DDISGYBLION

Mae'r grŵp Bwyd a Ffitrwydd (Is bwylgor cyngor ysgol) wedi ei sefydlu i drafod materion sydd yn ymwneud â hybu bwyta ac yfed iach yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r grŵp, sydd yn cynnwys disgyblion blwyddyn 7-13, wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda staff y ffreutur yn ogystal â chynrychiolwyr o Caterlink. Dyma flas o beth mae'r grŵp yn gweithio arno ar hyn o bryd:

- Wedi ysgrifennu Polisi Bwyd a ffitrwydd Ysgol David Hughes a'i gyflwyno i'r Llywodraethwyr. Mae'r polisi yn gwahardd yfed diodydd egni fel Red Bull a Monster. Mae'r grŵp yn teimlo byddai newid y rheol yma yn gwella ymddygiad disgyblion yn yr ysgol.
- Wedi trefnu gwasanaethau lle mae'r grŵp o gynrychiolwyr o Caterlink yn cyflwyno ac yn cynnal sesiwn cwestiwn ac ateb gyda phob blwyddyn yn yr ysgol.
- Mae hyn wedi cynyddu'r pysgod sydd ar y fwydlen yn dilyn gwaith Cadeirydd y Grŵp Bwyd a Ffitrwydd gyda chwmni teledu Darlun yn agor siop dros dro ym Mhorthaethwy.
- Wedi adnabod dyddiau themâu arbennig ee Euro 2016, Gŵyl Dewi, cinio Nadolig ac wedi addurno'r ffreutur ar eu cyfer.

**YSGOL DAVID HUGHES
MENAI BRIDGE**



**THE GOVERNORS' REPORT FOR THE
ACADEMIC YEAR
2015/2016**

This report is presented to parents. It is a summary of how the Governors fulfilled their duties during the **2015/2016** academic year.

THE GOVERNING BODY FOR 2015/2016

REPRESENTATIVE	NAME	EFFECTIVE UNTIL:
Headteacher	Mr H Emrys Williams	in his capacity as Headteacher
Parents' Representatives	Mrs Shan Wright Hughes Mrs Anwen Last Mrs Mared Lewis Roberts Mr Eifion Lloyd Watkins Mr William Edward Williams Mrs Catrin Withers	31.08.16 31.08.17 31.01.20 31.08.16 31.01.20 31.08.16
Teachers' Representatives	Mrs Manon Davies Mr Alun Roberts	31.08.16 06.05.19
Support Staff Representative	Mrs Nicola Parry	31.08.17
Local Education Authority Representatives	Councillor Lewis Davies Councillor Jim Evans Mrs Nia Lloyd Griffiths Councillor Meirion Jones Councillor Carwyn Elias Jones	31.05.17 31.05.17 31.08.16 31.05.17 31.05.17
Co-opted Members	Dr John Meirion Davies Dr Hywel Wyn Jones Dr Neil Trevor Jones Mr Gwyn Morgan Lloyd Mrs Olwen Dennis Williams	31.08.16 22.03.19 04.10.19 31.08.17 31.08.16
Pupils' Representatives	Ffion Elin Davies Sean Benedict Clapham	31.08.16 31.08.16
Clerk to the Governing Body	Mrs Wendy Williams	

THE CHAIRMAN OF THE GOVERNORS FOR 2016/2017

is Mr Gwyn Morgan Lloyd and he may be contacted through the school.

1. THE SCHOOL

Ysgol David Hughes had **1087** pupils on the school roll in September **2015**. The prescribed admission number for **2016/2017** is **216** pupils for each school year group. In September **2016** we have **1120** pupils and **81** teachers and **42** support staff.

2. THE SCHOOL'S AIM AND OBJECTIVES

The school aims, in partnership with pupils, parents and governors to create an atmosphere that will allow all pupils to develop to their full potential and, in doing so, meet the needs and demands of our changing bilingual society.

